# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 29 Ebrill 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Beth yw'r costau cyfartalog a awgrymir ar gyfer adeiladu tŷ dwy ystafell wely newydd ar (a) Lefel 3, (b) Lefel 4, ac (c) Lefel 5 y Cod Tai Cynaliadwy. (WAQ55957)

***Rhoddwyd ateb ar 05 Mai 2010***

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu cynlluniau peilot drwy raglen ddatblygu'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn canfod goblygiadau cyflawni codau lefel 4 a 5, ac mae'r gwaith o ddadansoddi'r wybodaeth o'r cynlluniau peilot hyn yn mynd rhagddo.

O'r 1af Medi 2009 disgwylir y bydd tai newydd yng Nghymru yn cyflawni cod lefel 3 31% yn well na gofynion ynni rheoliadau adeiladu 2006 (Datganiad Polisi Cynllunio y Gweinidog 01/09).

Gwelir amcangyfrifon diweddaraf effaith y Cod ar wefan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn http://www.communities.gov.uk/publications/planningandbuilding/codecostreview